



ADRODDIAD CRAFFU BLYNYDDOL 2017/18



www.wrexham.gov.uk | www.wrecsam.gov.uk

Cyflwyniad gan yr Hyrwyddwr Craffu

Croeso i Adroddiad Blynyddol Craffu 2017/18 gan yr Hyrwyddwr Craffu.

Fy enw i yw'r Cynghorydd Sonia Benbow-Jones a fi yw'r Cynghorydd ar gyfer Ward Cefn. Fi hefyd yw'r Hyrwyddwr Craffu. Yn rhinwedd fy rôl, mae'n rhaid i mi arwain a hyrwyddo'r swyddogaeth graffu tu mewn a thu allan i'r Cyngor. Y flwyddyn dan sylw oedd fy mlwyddyn gyntaf yn y swydd hon. Gyda gobaith, bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gwell dealltwriaeth i chi am y rôl bwysig sydd gan aelodau craffu i'w chwarae. Rydym yn goruchwyllo gweithrediadau'r Cyngor a'n partneriaid i sicrhau bod y canlyniadau gorau yn cael eu cyflawni ar gyfer pobl y Fwrdeistref Sirol.

Mae gwaith craffu'n esblygu i helpu'r Cyngor fynd i'r afael â'r 'materion mawr' mae'n ei wynebu. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar sut rydym wedi cyflawni hyn yn ystod 2017/18.

Mae cynyddu cyfranogiad y cyhoedd a phartneriaid wedi bod yn nod ar gyfer yr holl bwyllgorau craffu blwyddyn, ac eleni mae aelodau o'r cyhoedd, llywodraethwyr ysgolion ac athrawon, partneriaid iechyd, Ifanc, Heddlu Gogledd Cymru, tenantiaid y Cyngor, Fforwm Canol y Dref a chynrychiolwyr cyrff eraill i gyd wedi bod yn rhan yn y broses graffu.



ers sawl
Senedd yr
cyhoeddus

Cyflwynwyd gweddarlledu Cyfarfodydd Craffu'r Cyngor yn 2016/17 ac mae 6 phwyllgor wedi elwa o ystod 2017/18. Mae ffigurau gwyllo ar gyfer y cyfarfodydd hyn wedi cymharu'n dda gyda chyfarfodydd eraill y Cyngor sy'n cael eu gweddarlledu. Bydd gweddarlledu cyfarfodydd yn parhau i 2018/19 ac yn caniatáu mynediad ehangach a haws i'r cyhoedd at y trafodion.

Yn ystod y flwyddyn mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad cenedlaethol o ba mor 'barod at y dyfodol' yw swyddogaethau craffu'r Cyngor. Canfu'r adroddiad ar y swyddogaeth graffu yn Wrecsam "bod y Cyngor wedi cryfhau ei swyddogaeth drosolwg a chraffu ond mae sgôp i ystyried mwy o newidiadau sylfaenol i ddiwallu heriau'r dyfodol." Croesawyd y casgliad hwn fel bod yn cydnabod y ffocws a'r gwaith a wnaed i wella'r swyddogaeth graffu. Mewn perthynas â'r "newidiadau sylfaenol i ddiwallu heriau'r dyfodol", mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i adolygu'r gweithrediadau craffu cyfredol ac i ddatblygu gwell ffyrdd i ni fynd i'r afael â'r heriau hyn.

Wrth adolygu'r adroddiad hwn, mae'n amlwg bod craffu yn broses weithredol sy'n bodoli ochr yn ochr â gweithrediad y Cyngor, pobl Wrecsam a'r llwyfan cenedlaethol ehangach - mae'r cam nesaf yn rhoi cynrychiolaeth ddarluniadol, 'cwmwl geiriau', sy'n amlygu'r ymagwedd gyfranogol, ymchwiliadol a hyblyg sy'n cael ei gymryd gan y swyddogaeth graffu i gyflawni canlyniadau.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i bawb a fu'n rhan o graffu yn ystod y flwyddyn am eu cyfraniadau wrth helpu'r swyddogaeth graffu ddarparu ar gyfer pobl Wrecsam.

gwrando
allweddol cyngor safbwynt
gwella gweddarlledu gwerth craffu
gwaith adeiladol
cynghorwyr ymgysylltu polisi trafodaeth
gwarchodwr cyfle diddordeb hyblyg
agored cymhleth ychwanegu ansawdd arbenigwyr
darparu codi amgen gweithredoedd
datblygiad argymhellion
cryfhau hidlo trafodaethau
cymuned cymorth lleol
cyhoeddus ystyried proses pwyllgorau
cefnogol rhanddeiliaid materion
atebolrwydd

DYWEDOCH CHI, GWNAETHOM NI

Yn eistedd ar bwyllgorau craffu mae cynghorwyr lleol, sy'n eich cynrychioli chi, y cyhoedd. Tra bydd adegau pan fydd angen iddynt ymgymryd â gwaith statudol, er enghraifft craffu fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, neu ymateb i adroddiadau rheoleiddio, mae pwyllgorau craffu am ddefnyddio eu hamser i fod yn ymateb i faterion sydd o bwys i chi, y cyhoedd. Ar y cyfan, does gan y swyddogaeth graffu ddim pwerau i graffu ar waith cyrff allanol, ond mae lawer o bwyllgorau craffu yn ymgysylltu gyda darparwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ac yn eu herio ar eich rhan.

Dyma rai enghreifftiau o'r math o waith yr ydym wedi'i wneud eleni ...

Ein **cyllideb** – erbyn hyn rydym oll yn gyfarwydd gyda sefyllfa'r gyllideb yn Wreccsam a'r holl awdurdodau lleol eraill. Cafodd y Cyngor ymateb da iawn i'n hymgyngoriad ar y gyllideb – dywedodd dros 3700 ohonoch eich barn wrthym – ac rydym wedi defnyddio hyn fel arwydd pwysig am y gwasanaethau a'r materion sy'n bwysig i chi y mae angen i ni gadw llygad arnyn nhw. Gan ddefnyddio'r hyn a ddywedoch wrthym ni, byddwn yn parhau i graffu ar faterion, gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol Yr Heddlu, newidiadau i gyfleoedd dydd a gwai8th yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a darparu gwasanaethau cerddoriaeth mewn ysgolion yn y dyfodol.

Mae **canol ein tref** yn bwysig i ni oll. Mae yna wastad lawer o gyhoeddusrwydd... boed hynny am y marchnadoedd, sawl siop sydd gennym, neu lendid y strydoedd. Felly ategom at y gwaith a wnaethom y llynedd a wnaeth argymhellion am gydlynu'n gwasanaethau yn well yng nghanol y dref – ac roeddem yn falch o weld fod llawer o waith cadarnhaol iawn wedi'i wneud fel rhan o'r Uwchgyllun Canol y Dref. Gweddarlledom y cyfarfod hwn, a chawsom lawer o sylw lleol a rhanbarthol yn y cyfryngau.

Ein **Bwrdd Iechyd...** rydym yn gweithio mewn partneriaeth â BIPBC i gydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Wreccsam - felly mae gennym lawer i siarad yn ei gylch! Ond rydym hefyd yn eu gwahodd i gyfarfodydd yn rheolaidd i drafod materion eraill. Eleni, rydym wedi cwrdd â nhw ddwy waith, gan eu herio ar eu cynlluniau i gynyddu argaeledd meddygon teulu yn Wreccsam, ar ailfodelu gofal sylfaenol yn Wreccsam ac ar ddatblygu timau adnoddau cymunedol. Penderfynom hefyd i weddarlledu'r cyfarfodydd hyn gan y gwyddom y buasent o'r un diddordeb i chi ag yr ydynt i ni.

CYMERWCH RAN!

Sut, Pryd a Lle?

Mae'r pwyllgorau yn tueddu i gyfarfod bob mis. Rydym yn gwahodd pobl sy'n gwneud penderfyniadau, pobl sydd â diddordeb ac arbenigwyr i'n helpu gyda'n trafodaethau. Rydym fel arfer yn cyfarfod yn Neuadd y Dref ond rydym yn hyblyg ynghylch hyn. Fel arfer mae ein cyfarfodydd ar agor i'r cyhoedd, ac mae'n papurau ar gael ar wefan y Cyngor. Ryydym hefyd yn gweddarlledu rhai o'n cyfarfodydd a gallwch weld y rhain yn fyw neu o'n harchifau, ar wefan y Cyngor. Hoffem wybod beth rydych yn ei feddwl.

**“Pa faterion sy'n bwysig i chi a'r
bobl yn eich cymdogaeth?”**

**“Wyddoch chi gall y cyhoedd awgrymu
materion i bwyllgorau craffu edrych arnynt?”**

**“Pa faterion ydych chi'n meddwl dylai'r Cyngor
a'i bartneriaid fod yn taclo?”**

Defnyddiwch y ddolen ganlynol i'ch helpu i **GYMRYD RHAN!**

<http://www.wrexham.gov.uk/english./faq/scrutiny.htm>

UNRHYW GWESTIYNAU?

Gallwch gysylltu â'r **Tîm Cefnogi Craffu** trwy e-bost: scrutiny@wrexham.gov.uk neu ffôn: 01978 292179/ 292253/ 292258 neu trwy **eich cynghorydd lleol**.

EIN PWYLLGORAU CRAFFU

Mae gan Gynllun y Cyngor 2018-2022 bedair thema strategol:

ECONOMI – Cefnogi economi gynaliadwy, sy'n ffynnu ac yn fwy cyfartal.

POBL - Cefnogi cymunedau cynaliadwy, egnïol ac sy'n hunan-ddibynnol wrth ddiogelu'r rheiny sydd mewn risg.

LLE - Cefnogi amgylchedd cynaliadwy a bioamrywiol.

SEFYDLIAD – Adeiladu sefydliad effeithiol ac effeithlon sy'n gallu cefnogi lles lleol yn y modd gorau.

Mae gwaith pum Pwyllgor Craffu'r Cyngor yn canolbwyntio ar gefnogi amcanion y themâu lles hyn. Mae eu ffocws a'r materion y gallech ddisgwyl iddynt eu trafod wedi eu rhestru isod:-

- **Cyflogaeth, Busnes a Buddsoddiad** - Canolbwyntio ar Wrecsam fel man lle mae pobl eisiau byw, gweithio, dysgu, ymweld a buddsoddi ynddo; bod busnesau'n cael eu cefnogi i leoli a thyfu yma a bod pobl yn gallu ffynnu fel unigolion yn eu cymunedau. Byddai'r Pwyllgor hwn yn trafod datblygu economaidd a gwasanaethau cymorth busnes, twristiaeth a diwylliant, adfywio a datblygiad gwledig a threfol;
- **Diogelu, Cymunedau a Lles** - Canolbwyntio ar bobl Wrecsam yn teimlo'n ddiogel a saff gydag aneddiadau, cymdogaethau, adeiladau a mannau deniadol a chynaliadwy. Sicrhau bod plant ac oedolion diamddiffyn yn cael eu diogelu a bod ganddynt iechyd a lles da. Byddai'r Pwyllgor hwn yn trafod gwasanaethau cymdeithasol plant, oedolion, iechyd, gwasanaethau diogelu'r cyhoedd, gwasanaethau hamdden a chanolfannau cymunedol, a materion trosedd ac anhrefn a chydlyniant cymunedol;
- **Cartrefi a'r Amgylchedd** - Canolbwyntio ar ddarparu cartrefi sy'n diwallu anghenion a dyheadau pobl mewn cymunedau wedi'u cysylltu'n dda. Sicrhau ein bod yn Fwrdeistref Sirol sy'n gyfrifol yn amgylcheddol. Byddai'r Pwyllgor hwn yn trafod cartrefi (tai fforddiadwy, stoc dai a thai cymdeithasol y cyngor, digartrefedd, materion tai eraill fel safleoedd Teithwyr), rheoli gwastraff, effeithlonrwydd ynni, gwasanaethau Strydoedd a'r rhwydwaith cludiant ffyrdd / cynnal a chadw priffyrdd;
- **Cwsmeriaid, Perfformiad, Adnoddau a Llywodraethu** - Sicrhau ein bod ni'n canolbwyntio ar y cwsmer ac yn arloesol, yn drefnus, gydag adnoddau ac yn cael ein llywodraethu, er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i bobl Wrecsam. Byddai'r Pwyllgor hwn yn trafod rheoli perfformiad, Adnoddau Dynol, materion cydraddoldeb, iechyd a diogelwch, cyswllt â chwsmeriaid (gan gynnwys y Ganolfan Gyswllt), trefniadau ariannol a rheoli asedau'r Cyngor, trefniadau partneriaeth a chydweithredu a gwasanaethau democrataidd y Cyngor; a
- **Dysgu Gydol Oes** - Canolbwyntio ar feysydd sy'n sicrhau bod gan bobl ddyheadau cadarnhaol, addysg a photensial. Byddai'r Pwyllgor hwn yn trafod materion addysg (plant ac oedolion) a llyfrgelloedd.

CYFLOGAETH, BUSNES A BUDDSODDIAD

Ein blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor: Rhai enghreifftiau o'r hyn a wnaethom

Blaenoriaeth – Annog pobl i fyw, gweithio, dysgu, ymweld a buddsoddi yma

Blaenoriaeth – Cefnogi busnesau i leoli a thyfu yma

Blaenoriaeth – Helpu trechu tlodi



Uwch Gynllun Canol Tref Wrecsam

Fe wnaethon ni ystyried adroddiad ar y cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn Uwch Gynllun Canol Tref Wrecsam, yn dilyn adolygiad blaenrol gan Grŵp Tasg a Gorffen Craffu ar sut y cydlynwyd gwasanaethau yng nghanol y dref. Nodwyd bod Grŵp Strategol, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol dros yr Economi a Lle, a Grŵp Darparu Uwch Gynllun Canol y Dref bellach yn gweithio ochr yn ochr â'i gilydd i sicrhau ymagwedd fwy integredig tuag at gyflwyno Uwch Gynllun Canol y Dref. Cydnabuom bwysigrwydd diwylliant, bwyd, diod, adloniant a thai i lwyddiant canol y dref yn y dyfodol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, yr ymwelwyr cyfartalog wythnosol yng nghanol tref Wrecsam oedd 72,723. Dyrannwyd cyllid cyfalaf y Cyngor o £75k i ariannu prynu goleuadau Nadolig yn 2017/18 a £270k ar gyfer gwelliannau yng nghanol y dref, gan gynnwys gwella camerâu TCC.

Tracio Pobl Ifanc

Ym mis Mehefin 2017, ystyriom yr wybodaeth ddiweddaraf am waith Grŵp Cadw Mewn Cysylltiad y Cyngor ac argymhellwyd fod Aelod Arweiniol dros Bobl y Cyngor - Gwasanaethau Ieuenctid a Gwrthdlodi, yn ysgrifennu at yr AC a'r AS lleol ynghylch y problemau gyda rhannu data ar gyfer rhai 18 -24 oed ar gyfer rhai asiantaethau ac effaith credyd cynhwysol yn hyn o beth. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae'r Rheoliadau bellach wedi'u diwygio a fydd bellach yn caniatáu i'r Adran Gwaith a Phensiynau ddarparu gwybodaeth am bobl rhwng 18-25 oed sy'n derbyn Lwfans Ceisio Gwaith, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Cynhwysol i Gyrfa Cymru ac i ganiatáu i Gyrfa Cymru gadw gwybodaeth o'r fath i'w galluogi i roi cyngor, cymorth a chefnogaeth i bobl o'r fath. Bydd hyn yn galluogi monitro a thracio pobl ifanc 18-24 oed nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth yn well a darparu gwasanaethau wedi'u targedu fwy a fyddai'n diwallu eu hanghenion. Byddwn yn parhau i fonitro'r maes gwaith hwn.

Ymweliad Safle â Thŵr Redwither, Stad Ddiwydiannol Wrecsam

Aethom ar daith o amgylch yr adeilad, yna cawsom gyflwyniad ar gynlluniau a chyfleoedd y dyfodol ar gyfer Safle Redwither. Roedd yr ymweliad hwn yn rhan o godi ymwybyddiaeth aelodau newydd-etholedig o un o'r safleoedd allweddol a nodwyd yn y Cynllun Rheoli Asedau Strategol (SAMP) ar gyfer unedau diwydiannol, swyddfeydd a safleoedd datblygu'r Cyngor, fel bod â'r 'potensial datblygu gorau posibl i gyflawni allbynnau sylweddol o ran swyddi ac incwm'. Bydd hyn yn helpu i lywio ein gwaith craffu ar gynnydd yn erbyn y SAMP yn y dyfodol.

DIOGELU, CYMUNEDAU A LLES

Ein blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor: Rhai enghreifftiau o'r hyn a wnaethom

Blaenoriaeth – Cefnogi pobl i gael dyheadau cadarnhaol, dysgu a chyflawni eu potensial

Blaenoriaeth – Cefnogi pobl i fyw bywydau egniol, annibynnol yn eu cymuned community

Blaenoriaeth – Diogelu pobl ddiamddiffyn

Blaenoriaeth – Gweithio gyda'n partneriaid i wneud Wreccsam yn lle diogel lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys

Blaenoriaeth – Galluogi mynediad at weithgareddau hamdden a diwylliannol.



Craffu ar gynigion cyllideb 2018/20

Buom yn craffu ar y cynigion hyn ym mis Rhagfyr, cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor. Yn ystod trafodaethau ynghylch y cynnig i roi'r gorau i daliadau (£4 y dydd) i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n mynychu cyfleoedd dydd a gwaith, daeth yn amlwg bod defnyddwyr gwasanaeth eisoes yn cael eu talu'n anghyfartal. Argymhellodd y pwyllgor, a chytunodd y Bwrdd Gweithredol, nid yn unig i'r cynnig gael ei wrthod, ond bod pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei dalu'n gyfartal. Yn ogystal, nododd y pwyllgor nifer o faterion y teimlwyd y dylid eu monitro i ganfod unrhyw effeithiau negyddol sy'n deillio o weithredu, ac mae wedi cynnwys y rhain ar ei raglen waith i'r dyfodol - mae'r rhain yn cynnwys PCSOs, rhoi'r gorau i ben ariannu hyfforddiant gofal plant CBSW, a chynigion i ail-fodelu'r Gwasanaeth Cyfleoedd Dydd a Gwaith.

Trosedd ac Anrhefn

Rydym yn craffu ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, sy'n gyfrifol am lunio a gweithredu strategaethau ar gyfer lleihau troseddau ac anrhefn. Yn ystod y cyfnod hwn, gwnaethom gyfarfod ag aelodau statudol y Bartneriaeth, gan gynnwys Heddlu Gogledd Cymru a chynrychiolydd y Cyngor ar Fwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru, i adolygu cynnydd yn erbyn y Cynlluniau Darparu a thrafod sut mae'r materion yn Wreccsam yn cael eu taclo a deall y blaenoriaethau newydd sy'n dod i'r amlwg yn Wreccsam a Gogledd Cymru - gan gynnwys Ecsbloetio Plant yn Rhywiol, Caethwasiaeth Fodern, Troseddau Trefnedig a Gwrthderfysgaeth. Bellach, rydym yn derbyn data sy'n ein galluogi i ddadansoddi tueddiadau gwahanol gategoriâu o droseddau sy'n mynd yn ôl nifer o flynyddoedd, felly gallwn osod gwybodaeth mewn cyd-destun.

'Chwarae' yn Wreccsam

Eleni, fe wnaethom barhau i ddilyn yr argymhellion a wnaed gennym ym mis Mai 2016 mewn perthynas â sicrhau cyfleoedd chwarae digonol yn y fwrdeistref sirol. Ym mis Ionawr, roeddem yn falch o allu cefnogi cynigion diwygiedig yr oeddem wedi gofyn iddynt gael eu paratoi ar gyfer cefnogaeth y Cyngor i 'Addewid Chwarae' fel modd cost isel i sicrhau bod holl adrannau'r cyngor yn rhoi mwy o ystyriaeth i fynediad plant at amser a lle i chwarae. Mae'r Aelod Arweiniol yn gefnogol i'r cynigion a bydd yn cymryd yr 'Adduned Chwarae' i'r Bwrdd Gweithredol yn gynnar yn y flwyddyn fwrdeistrefol newydd i'w gymeradwyo. Bydd y pwyllgor hwn yn ystyried Asesiad Digonolrwydd Chwarae 2019, cynnydd gyda'r Addewid Chwarae a gwaith y Bartneriaeth Digonolrwydd Chwarae wrth gefnogi ei weithredu, yn ystod gwanwyn 2019.

CARTREFI A'R AMGYLCHEDD

Ein blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor: Rhai enghreifftiau o'r hyn a wnaethom

Blaenoriaeth - Hyrwyddo cartrefi o ansawdd da ac adfywio

Blaenoriaeth – Balchder yn ein hamgylchedd

Blaenoriaeth – Cymunedau gydag anheddau, cymunedau, adeiladau a gofod cynaliadwy a deniadol

Blaenoriaeth – Cymunedau cynaliadwy â chysylltiadau da



Cyfyngiadau Cyflymder Lleol

Mae cyfyngiadau cyflymder yn chwarae rhan sylfaenol mewn rheoli cyflymder yn effeithiol a gynlluniwyd i annog, helpu a mynnu bod gyrwyr yn mabwysiadu cyflymder priodol a diogel. Maent yn ddangosydd allweddol o'r natur a'r risgiau y mae'r amgylchedd ffyrdd yn eu hwynebu i ddefnyddwyr ffyrdd mewn modur a di-fodur. Mae Cyngor Wrecsam yn cymryd ymagwedd ragweithiol wrth fynd i'r afael â phryderon lleol trwy weithredu polisiâu a rhaglenni sydd â'r nod o leihau effaith negyddol cyflymder cerbydau ar gymunedau lleol. Ystyriom bolisi newydd ar gyfer gosod cyfyngiadau cyflymder yn Wrecsam a oedd yn adlewyrchu'r gwaith a wnaed i gyflwyno cyfyngiadau cyflymder 20mya a mesurau rheoli cyflymder cysylltiedig y tu allan i bob ysgol yn y Fwrdeistref Sirol ac adolygu a gweithredu cyfyngiadau cyflymder ar draws y rhwydwaith ffyrdd 'A' a 'B'. Cefnogwyd y polisi gennym. Awgrymwyd, lle y bo'n briodol, y dylid defnyddio Rhwymedigaethau Adran 106, fel adnodd ariannol i ariannu gwaith yn y maes hwn. Byddai angen adlewyrchu caniatadau cynllunio cysylltiedig a allai gyfrannu at fwy o ddefnydd o briffyrdd wrth ddiwygio cyfyngiadau cyflymder lleol.

Defnyddio Chwynladdwr i Reoli Twf Chwyn ar Briffyrdd a Mannau Agored yn Wrecsam

Defnyddir chwynladdwyr â glyffosad i reoli twf chwyn ar briffyrdd a manau agored. Mae eu defnydd yn broblem sydd wedi cael cyhoeddusrwydd cynyddol. Buom yn ystyried safbwyntiau y dylid stopio defnyddio sylweddau o'r fath; dulliau eraill a fabwysiadwyd gan Awdurdodau eraill i reoli twf chwyn a gwybodaeth berthnasol sy'n ymwneud â thrwyddedu a defnyddio chwynladdwyr glyffosad. Cytunwyd y dylid lleihau'r nifer o chwynladdwyr a ddefnyddir yn gyffredinol ac yn benodol mewn ardaloedd a nodwyd yn y Gyfarwydddeb Ewropeaidd berthnasol, y dylid ymchwilio i'r gost o brynu chwyndorwyr sy'n lleihau'r defnydd o chwynladdwyr, ac rydym yn parhau i fonitro manylion arfer gorau a hyfforddiant staff yn y maes hwn.

Eiddo Gwag

Diffinnir tai sydd wedi bod yn wag am o leiaf chwe mis fel "eiddo gwag". Mae'r rhain yn bennaf yn y sector preifat ac mae dod â nhw yn ôl i ddefnydd yn dod â manteision i gymunedau ac mae'n helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â rhestrau aros tai cymdeithasol a digartrefedd. Gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau sydd ar gael mae'r Cyngor yn cefnogi perchnogion i ddod â'r eiddo hyn yn ôl i ddefnydd. Cefnogom y gwaith sy'n cael ei wneud ac amlygwyd yr angen i barhau â'r gwaith hwn ac, os yn bosibl, ei ehangu i ganiatáu i'r mentrau sydd ar y gweill ddod â'r stoc tai yn ôl i'r uchafswm eiddo.

CWSMERIAID, PERFFORMIAD, ADNODDAU A LLYWODRAETHU

Ein blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor: Rhai enghreifftiau o'r hyn a wnaethom

Blaenoriaeth – Parhau i foderneiddio ein gwasanaethau

Blaenoriaeth – Cefnogi Cyngor gwydn



Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) - Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Gwasanaeth Sylweddol

Ni yw'r pwyllgor craffu sy'n delio â "threfniadaeth" y Cyngor. Fel rhan o'r cylch gwaith hwn, rydym yn ystyried adroddiadau a gyhoeddwyd gan SAC yn ymwneud â threfniadaeth y Cyngor. Eu nod yw "sichrau bod pobl Cymru'n gwybod bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n ddoeth a bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn deall sut i wella canlyniadau." Ystyriodd y pwyllgor adroddiad SAC mewn perthynas â sut mae swyddogaeth graffu'r Cyngor yn gweithredu wrth benderfynu ar newidiadau gwasanaeth sylweddol. Tynnwyd sylw at yr angen am waith yn y maes hwn i ganiatáu mwy o ymwybyddiaeth o'r newid arfaethedig ar gyfer Aelodau Mae hyn wedi arwain at bob Aelod bellach yn cael adroddiad diweddar rheoli prosiect chwarterol, gan gynyddu eu hymwybyddiaeth o unrhyw newidiadau arfaethedig i wasanaethau.

Contractau sydd wedi mynd dros y swm contract y cytunwyd arno gan fwy na 5%

Rydym wedi ystyried dau adroddiad yn ystod y flwyddyn sy'n monitro contractau lle mae gwariant wedi mynd dros y meini prawf a osodwyd. Rydym wedi tynnu sylw at broblemau o ran cofnodi costau mewn perthynas ag eiddo gwag, er mwyn rhoi mynegiant gwell o'r gwaith lle mae'r costau wedi'u priodoli'n uniongyrchol i waith a wnaed, a phryderon a fynegwyd ynghylch gwariant yn y maes hwn. Er y mynegwyd y pryderon hyn, mae fframwaith newydd ar gyfer ymdrin ag eiddo gwag a thîm comisiynu eiddo gwag wedi cael eu sefydlu, sydd wedi'i groesawu a bydd yn gwella perfformiad yn y maes hwn.

Asesiad lles a chynllun lles draft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam (BGC)

Yr ydym wedi derbyn adroddiadau am waith a wnaed i sefydlu'r BGC a'i gynllun lles cysylltiedig. Fel y pwyllgor craffu sydd wedi delio â nifer o faterion partneriaeth ac wedi craffu'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol blaenorol, rydym yn ymwybodol o'r rôl werthfawr y mae sefydliadau partner yn ei chwarae wrth gyflawni amcanion. Gyda'r asesiad lles sy'n gofyn am dasgau penodol gan Gynghorau Cymuned, rydym wedi tynnu sylw at y rôl gefnogaeth ar eu cyfer gan ganiatáu iddynt gyflawni eu tasgau.

DYSGU GYDOL OES

Ein blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor: Rhai enghreifftiau o'r hyn a wnaethom

Blaenoriaeth – Cefnogi pobl i gael dyheadau cadarnhaol, dysgu a chyflawni eu potensial;



GwE (Cynllun Gwella Ysgolion Rhanbarthol) / Cynlluniau Busnes Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (CBSW)

Rydym wedi cefnogi'r blaenoriaethau ar gyfer gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Busnes Lefel 3 Effeithiolrwydd Addysg a phroses ddiwygiedig ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder (gweler hefyd y paragraff isod). Rydym hefyd wedi cysgodi rhai Swyddogion GwE yn ystod Tymor y Gwanwyn 2018 i ddatblygu ein dealltwriaeth o sut mae ysgolion a gefnogir gan GwE yn gwella. Byddwn yn parhau i fonitro safonau addysg yn Wrecsam i ganfod a yw'r camau gweithredu yn y cynlluniau busnes yn cyflawni'r gwelliannau sylweddol sydd eu hangen yn ysgolion Wrecsam.

Gweithgor Monitro Perfformiad Ysgolion

Fel rhan o'r broses ddiwygiedig ar gyfer ysgolion sy'n achosi pryder (y cyfeirir ato uchod), rydym wedi sefydlu grŵp bach o 6 o Gynghorwyr a dau aelod lleyg cyfetholedig o'r Pwyllgor Craffu Dysgu Gydol Oes, sy'n cwrdd unwaith y tymor gyda staff a llywodraethwyr ysgolion sydd naill ai mewn categori o 'angen gwelliant sylweddol' yn Estyn, neu mewn categori cenedlaethol sydd angen cefnogaeth coch neu ambr. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn yr ysgolion ac mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn ymweld â'r ysgol ymlaen llaw i gwrdd â'r Pennaeth ac i drafod y trefniadau ar gyfer y cyfarfod. Yn ystod 2017/18, cynhaliwyd cyfarfodydd yn Ysgol Rhiwabon, Ysgol y Grango ac Ysgol Gynradd Parc Acton. Mae'r adborth gan aelodau'r Grŵp a'r ysgolion dan sylw wedi bod yn hynod o gadarnhaol ac mae gwelliannau yn yr ysgolion hynny wedi bod yn amlwg. Bydd y Grŵp yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Hydref bob blwyddyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol ar Safonau Addysg.

Ymweliadau Safle i Goleg Cambria (Safle Iâl a Ffordd y Bers)

Fel Aelodau newydd-etholedig, buom yn ymweld â safleoedd Iâl a Ffordd y Bers Coleg Cambria ym mis Tachwedd a mis Ionawr i arsylwi un o'u diwrnodau Cysylltiadau Ysgol fel rhan o'u darpariaeth gyfoethogi a hawl. Fe wnaeth hyn helpu i ehangu ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o fath ac ansawdd y gwaith cydweithredol sy'n cael ei wneud rhwng ysgolion a Choleg Cambria i wella'r broses o drosglwyddo i ddysgu ôl-16. Mae hefyd yn darparu rhaglen gyfoethogi bwrpasol i'r dysgwyr sydd wedi ymddieithrio fwyaf sy'n eu hannog i aros mewn addysg ac yn eu helpu i ddatblygu medrau cyflogadwyedd. Rydym yn falch o nodi bod gan Wrecsam un o'r cyfraddau isaf o ddisgyblion Blwyddyn 11 (15/16 oed) nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (1.1% o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol o 1.6%, ym mis Hydref 2017).